



CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Celfyddydau Perfformio (Dyfarniad Technegol)

DEUNYDDIAU ASESU
ENGHREIFFTIOL

UNED 3

I'w haddysgu o 2022
I'w dyfarnu o 2024

Cynnwys

Asesiadau Mewnol Dan Reolaeth

UNED 1:	Celfyddydau Perfformio ar Waith	
	Briff	4
	Tasgau Aseiniad	5
	Canllaw i'r rheolaethau	8
	Cynllun marcio	10

**Uned 3: Celfyddydau Perfformio ar Waith
Aseiniad
DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL
20 AWR**

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y briff yn ofalus cyn dechrau ar yr aseiniad.

Byddwch yn ennill marciau am dasgau allweddol a gaiff eu cwblhau yn y cyfnod Asesu. Caiff cyfanswm o 20 awr ei neilltuo ar gyfer tasgau a asesir. Ni allwch fynd heibio'r amser hwn. Rhoddir amseriadau ar gyfer pob tasg.

Dylai eich gwaith gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth a feithrinwyd gennych yn ystod sesiynau addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Darllenwch y wybodaeth a thasgau'r aseiniad yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith eich hun heb gymorth yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu. Fodd bynnag, gallwch ddefnyddio pobl eraill fel rhan o'ch enghreifftiau ymarferol os bydd angen, fel cyfranogwyr na chânt eu hasesu.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ac yn bodloni gofynion yr asesiad.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai eich gwaith chi yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Celfyddydau Perfformio ar Waith Briff Aseiniad Haf 20xx

COMISIYNAU PERFFORMIAD 2022

Cynhelir Gŵyl Love of Literature ar 3 Mawrth eleni i ddatblygu Diwrnod y Llyfr.

Rydym yn credu'n gryf y gall theatr, cerddoriaeth a dawnys fod yn ddulliau pwerus o ddathlu llenyddiaeth, ac felly rydym am gomisiynu darnau sy'n herio, yn ysbrydoli ac yn dathlu sut mae pobl yn teimlo am lenyddiaeth.

Mae Gŵyl Love of Literature am gomisiynu darnau gwreiddiol newydd o waith yn unol â thema'r ŵyl. Mae gennym ddiddordeb mewn gwaith sy'n addysgiadol, yn gymhellol ac yn heriol.

Dylai'r perfformiadau a gomisiynwyd fod yn 30-60 munud o hyd.

Eithriadau:

- sioeau sydd wedi teithio
- sioeau a fydd dan 30 munud o hyd
- sioeau sy'n dibynnu'n sylweddol ar waith sy'n bodoli eisoes.

Bydd comisiynau buddugol yn cael:

- cyllid ar gyfer y prosiect
- fideo a ffotograffiaeth o'r prosiect terfynol
- cymorth marchnata a hyrwyddo.

Er mwyn gwneud cais am gyllid ar gyfer eich digwyddiad, bydd angen i chi gyflwyno cynnig creadigol. Nod y cynnig creadigol yw esbonio'r hyn rydych am ei gyflawni drwy nodi'r pethau y mae angen i chi eu cyflawni, eich prif nod a thema'r ŵyl.

Bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth am y meysydd canlynol:

- gwaith ymchwil a wnaed gennych i lywio eich cynnig
- y cynnig ei hun sy'n amlinellu'r modd y bydd eich syniad yn dathlu llenyddiaeth
- enghreifftiau ymarferol i i ddangos agweddau ar eich cynnig
- y lefelau staffio/adnoddau y bydd eu hangen arnoch i gynnal eich digwyddiad.

Byddwn yn adolygu pob cynnig a gyflwynir i benderfynu pa brosiectau y dyfernir cyllid iddynt eleni.

Tasgau Aseiniad

Cynnwys yr Uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n ofynnol	Amser	Rheolaethau	AA	Marciau
3.1.1	1. Amlinellwch y ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y broses o greu eich gwaith perfformio arfaethedig.	Amlinellwch y ffactorau a ystyriwyd gennych.	2 awr	Goruchwyliaeth: Uniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau:	AA1	10
3.1.2	2. Lluniwch eich cynlluniau a'ch syniadau ar gyfer eich digwyddiad arfaethedig. Dylech gynnwys: - cyflwyniad byr i'r syniad - cynnig wedi'i ddatblygu'n llawn ar gyfer y syniad i'w roi ar waith sy'n cynnwys: - crynodeb o'r perfformiad - defnydd priodol o ddisgyblaethau perfformio (drama ddyfeisiedig, coreograffi, cyfansoddi, cyfansoddi gan ddefnyddio technoleg) - defnydd priodol o ddisgyblaethau cynhyrchu (cynllunio gwisgoedd, cynllunio goleuo, cynllunio sain, cynllunio colur a gwallt, cynllunio set).	Dylid cyflwyno hyn yn briodol e.e. yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio diagramau, yn glyweledol, yn ddigidol.	2 awr	Cydweithio: Ni chaniateir	AA2	10

3.1.2	3.	Amlinellwch yr amserlen, y personél a'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer eich cynnig creadigol. Dylech lunio'r canlynol: • rhestr o'r adnoddau/deunyddiau sy'n ofynnol • rhestr o'r personél sy'n ofynnol • amserlen gynhyrchu ddrafft • cyllideb ddrafft.	• Amlinelliad o'r amserlen, y personél a'r adnoddau.	1.5 awr		AA1	5
3.2.1	4.	Amlinellwch y modd y gallech ddefnyddio marchnata a chysylltiadau cyhoeddus i hyrwyddo eich digwyddiad.	• Adroddiad marchnata a chysylltiadau cyhoeddus.	1.5 awr		AA1	5
3.2.2	5.	Lluniwch enghreifftiau ymarferol o'ch digwyddiad arfaethedig sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o'r disgyblaethau a restrir yn nhasg 2: • drama ddyfeisiedig • coreograffi • cyfansoddi • cyfansoddi gan ddefnyddio technoleg. • cynllunio gwisgoedd • cynllunio goleuo • cynllunio sain • cynllunio colur a gwallt • cynllunio set. Gallwch ddefnyddio pobl eraill fel rhan o'ch enghreifftiau ymarferol os bydd angen, fel cyfranogwyr na chânt eu hasesu. Fodd bynnag, ni ddylent gyfrannu unrhyw syniadau na chyfarwyddyd mewn perthynas â'ch darn.	• Dylai hyn gael ei gyflwyno'n briodol e.e. yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio diagramau, yn glyweledol, yn ddigidol.	8 awr		AA2	20

3.2.2	6.	Lluniwch a chynigiwch eich syniad creadigol, yn cynnwys eich enghreifftiau ymarferol, i gynulleidfa a chael adborth. Dylech ystyried y canlynol: • eich sgiliau cyflwyno (yn cynnwys eglurder a defnydd o dôn) • sut i gyfleu eich digwyddiad arfaethedig • defnyddio enghreifftiau perfformio a/neu gynhyrchu i ddangos eich digwyddiad arfaethedig	• Recordiad o'r cynnig syniad.	2.5 awr		AA2	10
3.3.1 3.3.2	7.	Gwerthuswch lwyddiant eich cynnig creadigol. Trafodwch yr hyn rydych wedi'i ddysgu drwy wneud y gwaith hwn a sut y bydd yn llywio eich gwaith cynllunio digwyddiadau yn y dyfodol. Dylech ystyried y canlynol: • adborth gan y panel comisiynu • a wnaeth y cynnig gyflawni gofynion y comisiwn • cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad personol yn y dyfodol • cynlluniau gweithredu a thargedau ar gyfer cynigion creadigol yn y dyfodol.	• Darn myfyriol.	2.5 awr		AA3	20
Cyfanswm y Marciau							80

Canllaw i'r Rheolaethau

Mae nifer o agweddau gwahanol a gaiff eu rheoli o fewn asesiad mewnol eich Dyfarniadau Galwedigaethol, sef:

- goruchwyliaeth
- canllawiau
- adnoddau
- cydweithio

Goruchwyliaeth

Ceir un lefel o oruchwyliaeth yn asesiad Uned 3 Celfyddydau Perfformio:

Goruchwyliaeth uniongyrchol

Mae cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau. Rhaid i'r ganolfan sicrhau:

- bod y goruchwylwr yn gallu gweld pob ymgeisydd yn glir drwy gydol y sesiwn / sesiynau)
- bod deunyddiau arddangos a allai fod o gymorth yn cael eu tynnu neu eu gorchuddio.
- nad yw ymgeiswyr yn gallu defnyddio e-bost, y rhynggrwyd na ffonau symudol.
- bod ymgeiswyr yn cwblhau eu gwaith yn annibynnol.
- nad yw ymgeiswyr yn cyfathrebu â'i gilydd.
- nad oes unrhyw fath o gymorth yn cael ei roi.

Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Lle y nodir goruchwyliaeth uniongyrchol, rhaid i'r ganolfan sicrhau bod poster No Mobile Phone JCQ a Warning to Candidates JCQ yn cael eu harddangos.

Cyfarwyddyd

Drwy gydol yr Asesiad dan reolaeth o Uned 3 Celfyddydau Perfformio, ceir rheolaeth uniongyrchol ar ganllawiau:

Categori o gyngor/adborth:	Uniongyrchol
Gall athrawon:	
Adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel gyffredinol i sicrhau canlyniad ymarferol.	X
Gwerthuso cynnydd hyd yn hyn a chynnig ffyrdd eang o wella.	X
Rhoi cyngor manwl a phenodol ar sut i wella fersiynau drafft er mwyn bodloni meini prawf asesu.	X
Rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n gadael ymgeiswyr heb gyfle i ddangos y gallant weithio ar eu liwt eu hunain.	X
Ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith.	X

Cyn rhoi cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifir uchod, rhaid i athrawon sicrhau bod darpariaeth ar gael i gofnodi'r cymorth hwn. Rhaid cofnodi manylion ar y ffurflen gofnodi a gyhoeddir gan CBAC. Rhaid ystyried yr ymyrraeth wrth farcio'r gwaith. Dylid defnyddio anodiadau i esbonio sut cafodd marciau eu cymhwyso yng nghyd-destun y cymorth ychwanegol a roddwyd. Ystyrir methu â dilyn y weithdrefn hon yn achos o gamymddwyn.

Adnoddau

Caniateir adnoddau drwy gydol Asesiad dan reolaeth Uned 1 Celfyddydau Perfformio:

Caniateir

Fel arfer, nid oes cyfyngiad ar yr adnoddau sydd ar gael i ymgeiswyr, dylid dilyn y cyfarwyddyd yn y briff neu ganllawiau'r uned.

Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Dylai canolfannau gyfeirio at fanylebau neu ganllawiau pwnc-benodol.

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau CBAC Camymddwyn - canllaw i ganolfannau a chanllawiau JCQ Suspected malpractice in examinations and assessments - policies and procedures os nad ydynt yn siŵr ynghylch y camau nesaf y dylent eu cymryd.

Cydweithio

Ni all ymgeiswyr gydweithio ar unrhyw dasg yn Uned 3 ond gallant ddefnyddio pobl eraill fel rhan o'u henghreiffiau ymarferol yn nhasgau 5 a 6 os bydd angen, fel cyfranogwyr na chânt eu hasesu.

Ailddrafftio

Caniateir ailddrafftio o fewn amser yr asesiad dan reolaeth a heb adborth gan yr athro.

Amser

Caiff cyfanswm o 20 awr ei neilltuo ar gyfer tasgau a asesir. Ni all ymgeiswyr fynd heibio'r amser hwn. O ran rheolaethau amser, ceir amseriadau penodol ar gyfer tasgau Uned 3.

Cynllun Marcio

Cyfarwyddyd

Gridiau asesu ar gyfer Asesiad Allanol Uned 3

Egwyddorion marcio cyffredinol

- Mae'r marciau a ddyfernir yn farciau cyflawn (nid hanner marciau, na ffraciynau eraill).
- Dim ond pan gaiff y nodweddion hyn eu hasesu'n benodol gan y cwestiwn fel y nodir gan y cynllun marcio y dylid beirniadu ansawdd ar ansawdd y sillafu, yr atalnodi, a'r gramadeg. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid dyfarnu marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gellir cyfyngu ar y defnydd o'r ystod lawn o farciau yn unol ag ansawdd yr ymatebion a welir gan ymgeiswyr).
- Mae'r marciau a ddyfernir yn seiliedig ar y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio yn unig. Ni ddylid dyfarnu marciau gan ystyried trothwyon gradd na disgrifyddion gradd.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys ystod o farciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodi, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Gwahaniaethu o fewn ein cynlluniau marcio

Mae'r grid canlynol yn dangos ein man cychwyn ar gyfer creu ein cynlluniau marcio. Defnyddir y rhain er mwyn sicrhau bod modd gwahaniaethu rhwng ein bandiau. Bydd cynlluniau marcio yn defnyddio'r tabl hwn fel sail ar gyfer asesu pob cwestiwn ond bydd yn adlewyrchu gofynion penodol y cwestiwn.

Band Disgrifydd	AA1	AA2	AA3
Ardderchog	- Yn ymwybodol o amrywiaeth eang o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth sydd wedi'i datblygu'n llawn ac sy'n dangos perthnasedd i ofynion y cwestiwn.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso'n gyson i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae sgiliau ymarferol yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol ac maent o safon uchel. - Yn gallu cyflwyno dehongliad cwbl ddatblygedig a thrylwyr sy'n hollol gywir.	- Mae sgiliau dadansoddi a gwerthuso yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol iawn. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i ddatblygu dadl effeithiol a chytbwys. - Gwerthusiad manwl ac wedi'i gyfiawnhau sy'n cynnig barn gadarn, yn arwain at gasgliadau rhesymol.
Da iawn	Defnydd effeithiol a manwl gywir o derminoleg.		
Da	- Yn meddu ar amrywiaeth o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth wedi'i datblygu'n dda sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. - Defnydd manwl gywir o derminoleg.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae sgiliau ymarferol yn cael eu cymhwyso'n effeithiol ac maent o safon uchel i ganolig. - Yn gallu cynnig dehongliad datblygedig, sy'n gywir ar y cyfan.	- Mae sgiliau dadansoddi a gwerthuso yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl ddatblygedig, na chaiff ei chyflwyno'n gyfartal o bosibl. - Gwerthusiad manwl sy'n cynnig barn gadarn ar y cyfan, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau rhesymol a thystiolaeth.
Boddhaol	- Yn cynnwys gwybodaeth gywir. - Yn dangos dealltwriaeth gadarn sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn/y dasg. - Yn defnyddio terminoleg yn fanwl gywir ar y cyfan.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso i gyd-destun y cwestiwn/y dasg ar y cyfan. - Mae sgiliau ymarferol yn cael eu cymhwyso'n briodol ac maent o safon ganolig. - Yn gallu llunio dadansoddiad cadarn sy'n gywir ar y cyfan.	- Mae sgiliau dadansoddi a gwerthuso yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a chadarn. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl gadarn. NEU - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i ddatblygu dadl unochrog fanwl. - Gwerthusiad manwl sy'n cynnig rhywfaint o safbwyntiau, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau a thystiolaeth.

Sylfaenol	• Yn dangos peth gwybodaeth gywir. • Yn dangos dealltwriaeth rannol sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. • Peth defnydd o derminoleg briodol.	• Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso'n rhannol i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. • Mae sgiliau ymarferol o safon ganolig i isel. • Yn gallu llunio dadansoddiad cadarn o'r dystiolaeth sy'n dangos peth cywirdeb.	• Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol gan ddangos lefel gadarn o gymhwysedd ond efallai nad oes manylder. • Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl unochrog • Gwerthusiad sy'n cynnig barn a chasgliadau cyffredinol, gyda defnydd gofynnol o dystiolaeth.
Cyfyngedig	• Gwybodaeth gyfyngedig gyda pheth perthnasedd i'r pwnc neu'r cwestiwn. • Prin yw'r datblygiad a welir, neu nid oes datblygiad o gwbl. • Prin iawn yw'r defnydd o derminoleg, neu ni chaiff ei defnyddio o gwbl.	• Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso mewn ffordd ofynnol i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. • Mae sgiliau ymarferol o safon isel. • Os oes dehongliad o gwbl, mae hwnnw'n ddehongliad syml a chyfyngedig iawn yw'r cywirdeb.	• Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso gyda chymhwysedd cyfyngedig. • Gwerthusiad heb ei gefnogi sy'n cynnig barn/casgliadau syml os o gwbl.

Pan edrychwch ar bob un o'n cynlluniau marcio, mae gan bob band ddilyniant o ddisgrifyddion perfformiad. Mae'r disgrifyddion yn gweithio fel ysgol: o'r gris isaf, i'r gris uchaf. Y band isaf 'Cyfyngedig' yw'r disgrifydd symlaf mewn perthynas â pherfformiad ymgeiswyr. Mae'r disgrifyddion yn symud drwy'r grid i'r agwedd fwy heriol ar yr amcan asesu hwnnw. Mae'n bwysig nodi na fydd pob cwestiwn yn defnyddio pob pwynt bwled a restrir yn y tabl uchod, fodd bynnag, dylai'r ymgeiswyr ddangos **pob un o'r gofynion** a gaiff eu cynnwys yn y cynlluniau marcio cyhoeddus er mwyn cael marciau llawn ar lefel benodol. Os bydd ymgeisydd yn cael marciau llawn ar lefel benodol, dylai'r marcwyr weld a yw'n dangos unrhyw rai o'r gofynion o'r lefel nesaf i fyny. Yn aml, bydd ymgeiswyr yn cyflawni rhai o'r disgrifyddion ar un lefel, ond nid ar bob lefel. Yn yr achos hwn, dylid cymhwyso dull ffit orau.

Ceir rhagor o wybodaeth am y modd y mae'r cynlluniau marcio ar gyfer ein Dyfarniadau Galwedigaethol wedi cael eu creu, yn cynnwys gwybodaeth am y defnydd o'r bandiau marcio ar gyfer Ardderchog, Da Iawn a Da yng Nghannllaw Gweinyddol y Dyfarniadau Galwedigaethol.

Tasg 1	Amlinellwch y ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y broses o greu eich gwaith perfformio arfaethedig. [10 marc] Dylai'r ymgeiswyr ystyried: • cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol a hanesyddol • naws ac arddull/genre • gofod/lleoliad perfformiad • y themâu a'r syniadau • pwrpas • cynulleidfa darged • gwaith ymarferwyr sydd wedi creu gwaith perfformio • mathau gwahanol o sefydliadau sy'n creu gwaith perfformio.
Band	AA1: Dangos gwybodaeth am bob rhan o'r fanyleb a dealltwriaeth ohoni.
4	9-10 marc Ymateb gwyb sy'n dangos: • amrywiaeth eang o wybodaeth am y ffactorau sy'n dylanwadu ar y broses o greu gwaith perfformio a dealltwriaeth ohonynt sy'n fanwl a chywir • dealltwriaeth cwbl ddatblygedig sy'n dangos perthnasedd i ofynion briff yr aseiniad • tystiolaeth/enghreifftiau wedi'u dewis yn dda • dyfnder ac amrywiaeth y dystiolaeth/enghreifftiau a ddefnyddir • defnydd effeithiol a manwl gywir o derminoleg.
3	6-8 marc Ymateb da sy'n dangos: • amrywiaeth o wybodaeth am y ffactorau sy'n dylanwadu ar y broses o greu gwaith perfformio a dealltwriaeth ohonynt sy'n fanwl a chywir • dealltwriaeth ddatblygedig sy'n dangos perthnasedd i ofynion briff yr aseiniad • tystiolaeth/enghreifftiau priodol • dyfnder ac amrywiaeth y dystiolaeth/enghreifftiau a ddefnyddir, ond y ddwy elfen heb fod yn gyfartal • defnydd manwl gywir o derminoleg.
2	3-5 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth gywir a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y broses o greu gwaith perfformio • dealltwriaeth rannol sy'n berthnasol i ofynion briff yr aseiniad • nid yw'r dystiolaeth/enghreifftiau yn berthnasol bob amser • rhywfaint o ddyfnder neu amrywiaeth y dystiolaeth/enghreifftiau perthnasol a ddefnyddir • peth defnydd o derminoleg briodol.
1	1-2 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • gwybodaeth am y ffactorau sy'n dylanwadu ar y broses o greu gwaith perfformio a dealltwriaeth ohonynt sy'n gyfyngedig • dim llawer o ddealltwriaeth sy'n berthnasol i'r briff • dim tystiolaeth/enghreifftiau perthnasol • prin iawn yw'r defnydd o derminoleg, os o gwbl.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 2	Lluniwch eich cynlluniau a'ch syniadau ar gyfer eich digwyddiad arfaethedig. [10 Marc] Dylai'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth eu bod wedi archwilio'r canlynol sy'n briodol i'w digwyddiad arfaethedig: • cyflwyniad priodol i'r syniad • crynodeb priodol • detholiad priodol o ddisgyblaethau perfformio • detholiad priodol o ddisgyblaethau cynhyrchu
Band	AA2: Cymhwyso sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.
4	9-10 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y broses o greu gwaith perfformio a dealltwriaeth ohoni yn ardderchog mewn ymateb i ddiwydiant a gomisiynwyd drwy'r canlynol: • cyflwyno cyflwyniad manwl ac effeithiol i'r syniad sy'n ymateb yn llawn i'r briff • llunio crynodeb manwl ac effeithiol • dangos detholiad effeithiol a phriodol iawn o ddisgyblaethau perfformio • dangos detholiad effeithiol a phriodol iawn o ddisgyblaethau cynhyrchu
3	6-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y broses o greu gwaith perfformio a dealltwriaeth ohoni yn dda mewn ymateb i ddiwydiant a gomisiynwyd drwy'r canlynol: • cyflwyno cyflwyniad manwl i'r syniad sy'n ymateb i'r briff • llunio crynodeb manwl • dangos detholiad effeithiol a phriodol o ddisgyblaethau perfformio • dangos detholiad effeithiol a phriodol o ddisgyblaethau perfformio.
2	3-5 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y broses o greu gwaith perfformio a dealltwriaeth ohoni mewn modd sylfaenol mewn ymateb i ddiwydiant a gomisiynwyd drwy'r canlynol: • cyflwyno cyflwyniad i'r syniad sy'n ymateb yn rhannol i'r brif • llunio crynodeb • dangos rhywfaint o ddetholiad priodol o ddisgyblaethau perfformio • dangos rhywfaint o ddetholiad priodol o ddisgyblaethau perfformio.
1	1-2 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y broses o greu gwaith perfformio a dealltwriaeth ohoni mewn modd cyfyngedig mewn ymateb i ddiwydiant a gomisiynwyd drwy'r canlynol: • cyflwyno cyflwyniad gofynnol i'r syniad sydd â pherthnasedd gofynnol i'r briff • llunio crynodeb gofynnol • dangos detholiad gofynnol o ddisgyblaethau perfformio • dangos ystyriaeth ofynnol neu ddetholiad priodol o ddisgyblaethau cynhyrchu
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 3	Amlinellwch yr amserlen, y personél a'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer eich cynnig creadigol. [5 marc] Dylai'r ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth a dealltwriaeth am y canlynol: • <i>adnoddau/deunyddiau</i> • <i>rolau swyddi a chyfrifoldebau o fewn sefydliadau sy'n creu gwaith perfformio</i> • <i>y broses gynhyrchu</i> • <i>amserlen gynhyrchu</i> • <i>cyllidebu.</i>
Band	AA1: Dangos gwybodaeth am bob rhan o'r fanyleb a dealltwriaeth ohoni.
3	5 marc Ymateb da iawn sy'n dangos: • amrywiaeth o wybodaeth gywir am amserlenni, personél a'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y cynnig creadigol • dealltwriaeth ddatblygedig sy'n dangos perthnasedd i ofynion brif yr aseiniad • tystiolaeth/enghreifftiau perthnasol • dyfnder ac amrywiaeth y dystiolaeth/enghreifftiau a ddefnyddir • defnydd manwl gywir o derminoleg.
2	3-4 marc Ymateb da sy'n dangos: • gwybodaeth gywir am amserlenni, personél a'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y cynnig creadigol • dealltwriaeth sy'n dangos perthnasedd i ofynion briff yr aseiniad • rhywfaint o dystiolaeth/enghreifftiau priodol • dyfnder neu amrywiaeth y dystiolaeth/enghreifftiau a ddefnyddir • defnydd manwl gywir o derminoleg ar y cyfan.
1	1-2 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth am amserlenni, personél a'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y cynnig creadigol • rhywfaint o ddealltwriaeth sy'n berthnasol i ofynion brif yr aseiniad • rhywfaint o dystiolaeth/enghreifftiau perthnasol • peth defnydd o derminoleg briodol.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 4	Amlinellwch y modd y gallech ddefnyddio marchnata a chysylltiadau cyhoeddus i hyrwyddo eich digwyddiad. Dylai'r ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth am y canlynol a dealltwriaeth ohonynt: • sut y caiff digwyddiadau eu hysbysebu a'u marchnata • y defnydd o gyfryngau cymdeithasol • amrywiaeth o ddulliau hysbysebu • amrywiaeth o weithgareddau hyrwyddo.
Band	AA1: Dangos gwybodaeth am o bob rhan o'r fanyleb a dealltwriaeth ohoni.
3	5 marc Ymateb da iawn sy'n dangos: • amrywiaeth o wybodaeth gywir am hyrwyddo digwyddiadau celfyddydau perfformio • dealltwriaeth ddatblygedig sy'n dangos perthnasedd i ofynion briff yr aseiniad • tystiolaeth/enghreifftiau perthnasol • dyfnder ac amrywiaeth y dystiolaeth/enghreifftiau a ddefnyddir • defnydd manwl gywir o derminoleg.
2	3-4 marc Ymateb da sy'n dangos: • gwybodaeth gywir am hyrwyddo digwyddiadau celfyddydau perfformio • dealltwriaeth sy'n dangos perthnasedd i ofynion brif yr aseiniad • rhywfaint o dystiolaeth/enghreifftiau priodol • dyfnder neu amrywiaeth y dystiolaeth/enghreifftiau a ddefnyddir • defnydd manwl gywir o derminoleg ar y cyfan
1	1-2 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth am hyrwyddo digwyddiadau celfyddydau perfformio • rhywfaint o ddealltwriaeth sy'n berthnasol i ofynion brif yr aseiniad • rhywfaint o dystiolaeth/enghreifftiau perthnasol • peth defnydd o derminoleg briodol.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 5	<i>Lluniwch enghreifftiau ymarferol o'ch digwyddiad arfaethedig sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o'r disgyblaethau a restrir yn nhasg 2. [20 marc]</i> <i>Dylai'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o enghreifftiau ymarferol sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o'r disgyblaethau canlynol:</i> <i>drama ddyfeisiedig</i> <i>coreograffi</i> <i>cyfansoddi</i> <i>cyfansoddi gan ddefnyddio technoleg</i> <i>cynllunio gwisgoedd</i> <i>cynllunio goleuo</i> <i>cynllunio sain</i> <i>cynllunio colur a gwallt</i> <i>cynllunio set.</i> <i>Gall yr ymgeiswyr ddefnyddio pobl eraill fel rhan o'r gwaith hwn os bydd angen, fel cyfranogwyr na chânt eu hasesu. Fodd bynnag, ni ddylent gyfrannu unrhyw syniadau na chyfarwyddyd mewn perthynas â'r darn.</i>
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.</i>
5	17-20 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y sgiliau a ddefnyddir i ddatblygu enghreifftiau ymarferol ar gyfer ei ddigwyddiad arfaethedig a dealltwriaeth ohonynt yn ardderchog, drwy ddangos lefel effeithiol iawn o'r canlynol: - sgiliau - cyfathrebu - creadigrwydd creu cynnyrch effeithiol iawn sy'n gwbl addas ar gyfer thema'r briff a'r diben a fwriadwyd ac sydd â gorffeniad sy'n agos at fod yn broffesiynol.
4	13-16 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i ddatblygu enghreifftiau ymarferol ar gyfer ei ddigwyddiad arfaethedig a dealltwriaeth ohonynt yn dda, drwy ddangos lefel effeithiol o'r canlynol: - sgiliau - cyfathrebu - creadigrwydd creu cynnyrch effeithiol sy'n amlwg yn addas ar gyfer thema'r briff a'r diben a fwriadwyd.
3	9-12 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i ddatblygu enghreifftiau ymarferol ar gyfer ei ddigwyddiad arfaethedig a dealltwriaeth ohonynt mewn modd boddhaol drwy ddangos lefel briodol o'r canlynol: - sgiliau - cyfathrebu - creadigrwydd creu cynnyrch sy'n addas ar y cyfan ar gyfer thema'r briff a'r diben a fwriadwyd.

2	5-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i ddatblygu enghreifftiau ymarferol ar gyfer ei ddigwyddiad arfaethedig a dealltwriaeth ohonynt mewn modd sylfaenol drwy ddangos defnydd rhannol o'r rhan fwyaf o'r canlynol: • sgiliau • cyfathrebu • creadigrwydd creu cynnyrch sy'n rhannol addas ar gyfer thema'r briff a'r diben a fwriadwyd.
1	1-4 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i ddatblygu enghreifftiau ymarferol ar gyfer ei ddigwyddiad arfaethedig a dealltwriaeth ohonynt mewn modd cyfyngedig drwy ddangos defnydd gofynnol o rywfaent o'r canlynol: • sgiliau • cyfathrebu • creadigrwydd creu cynnyrch gofynnol.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 6	<i>Lluniwch a chynigiwch eich syniad creadigol, yn cynnwys eich enghreifftiau ymarferol, i gynulleidfa a chael adborth.</i> <i>Dylai'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o archwilio i'r canlynol:</i> • <i>sgiliau cyflwyno</i> • <i>eglurder</i> • <i>defnydd o dôn</i> • <i>cyfathrebu</i> • <i>defnydd o enghreifftiau ymarferol.</i> [10 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.</i>
4	9-10 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i gynnig ei syniad creadigol a dealltwriaeth ohonynt yn ardderchog, drwy ddangos lefel effeithiol iawn o'r canlynol: • sgiliau cyflwyno drwy gydol y cynnig syniad • eglurder drwy gydol y cynnig syniad • defnydd o dôn drwy gydol y cynnig syniad • cyfathrebu drwy gydol y cynnig syniad • defnydd o enghreifftiau ymarferol drwy gydol y cynnig syniad.
3	6-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i gynnig ei syniad creadigol a dealltwriaeth ohonynt yn dda drwy ddangos lefel effeithiol o'r canlynol: • sgiliau cyflwyno yn ystod y cynnig syniad • eglurder yn ystod y cynnig syniad • defnydd o dôn yn ystod y cynnig syniad • cyfathrebu yn ystod y cynnig syniad • defnydd o enghreifftiau ymarferol yn ystod y cynnig syniad.
2	3-5 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i gynnig ei syniad creadigol a dealltwriaeth ohonynt mewn modd sylfaenol drwy ddangos y canlynol: • sgiliau cyflwyno yn ystod rhywfaint o'r cynnig syniad • eglurder yn ystod rhywfaint o'r cynnig syniad • defnydd o dôn yn ystod rhywfaint o'r cynnig syniad • cyfathrebu yn ystod rhywfaint o'r cynnig syniad • defnydd o enghreifftiau ymarferol yn ystod rhywfaint o'r cynnig syniad.
1	1-2 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i gynnig ei syniad creadigol a dealltwriaeth ohonynt mewn modd cyfyngedig drwy ddangos lefel ofynnol o'r canlynol: • sgiliau cyflwyno yn ystod y cynnig syniad • eglurder yn ystod y cynnig syniad • defnydd o dôn yn ystod y cynnig syniad • cyfathrebu yn ystod y cynnig syniad • defnydd o enghreifftiau ymarferol yn ystod y cynnig syniad.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 7	<i>Gwerthuswch lwyddiant eich cynnig creadigol. Trafodwch yr hyn rydych wedi'i ddysgu drwy wneud y gwaith hwn a sut y bydd yn llywio eich gwaith cynllunio digwyddiadau yn y dyfodol. [20 marc]</i> <i>Dylai'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r canlynol:</i> <i>• adborth gan y panel comisiynu</i> <i>• adolygiad o b'un a oedd ei gynnis creadigol yn cyflawni gofyniad y comisiwn</i> <i>• cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad personol yn y dyfodol</i> <i>• cynlluniau gweithredu a thargedau ar gyfer cynigion creadigol yn y dyfodol.</i>
Band	AA3: <i>Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau priodol.</i>
5	17-20 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad ardderchog o lwyddiant ei gynnis creadigol drwy'r canlynol: • cynnal gwerthusiad manwl ac effeithiol o adborth gan y panel comisiynu • dangos ystyriaeth fanwl ac effeithiol o b'un a wnaeth ei gynnis creadigol gyflawni gofynion y comisiwn • dangos ystyriaeth fanwl ac effeithiol o gryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad personol yn y dyfodol • dangos cynlluniau gweithredu a thargedau manwl ac effeithiol ar gyfer cynigion creadigol yn y dyfodol • cyflwyno safbwyntiau craff a rhesymol ar lwyddiant y cynnis creadigol gyda chysylltiadau perthnasol rhwng casgliadau a thystiolaeth.
4	13-16 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad da o lwyddiant ei gynnis creadigol drwy'r canlynol: • cynnal gwerthusiad manwl o adborth gan y panel comisiynu • dangos ystyriaeth fanwl o b'un a wnaeth ei gynnis creadigol gyflawni gofynion y comisiwn • dangos ystyriaeth fanwl o gryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad personol yn y dyfodol • dangos cynlluniau gweithredu a thargedau manwl ar gyfer cynigion creadigol yn y dyfodol • cyflwyno safbwyntiau rhesymol ar lwyddiant y cynnis creadigol gyda chysylltiadau perthnasol rhwng casgliadau a thystiolaeth.
3	9-12 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad boddhaol o lwyddiant ei gynnis creadigol drwy'r canlynol: • cynnal gwerthusiad o adborth gan y panel comisiynu • dangos ystyriaeth o b'un a wnaeth ei gynnis creadigol gyflawni gofynion y comisiwn • dangos ystyriaeth o gryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad personol yn y dyfodol • dangos cynlluniau gweithredu a thargedau ar gyfer cynigion creadigol yn y dyfodol • cyflwyno safbwyntiau ar lwyddiant y cynnis creadigol gyda chysylltiadau perthnasol rhwng casgliadau a thystiolaeth.

2	5-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad sylfaenol o lwyddiant ei gynnig creadigol drwy'r canlynol: • cynnal rhywfaint o werthusiad o adborth gan y panel comisiynu ond efallai nad yw'n ddigon manwl gywir • dangos rhywfaint o ystyriaeth o b'un a wnaeth ei gynnig creadigol gyflawni gofynion y comisiwn • dangos rhywfaint o ystyriaeth o gryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad personol yn y dyfodol • dangos rhywfaint o gynlluniau gweithredu a thargedau ar gyfer cynigion creadigol yn y dyfodol • cyflwyno rhai safbwyntiau ar lwyddiant y cynnig creadigol gyda rhywfaint o ddefnydd o dystiolaeth.
1	1-4 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad cyfyngedig o lwyddiant ei berfformiad drwy'r canlynol: • cynnal gwerthusiad gofynnol o adborth gan y panel comisiynu • dangos ystyriaeth ofynnol o b'un a wnaeth ei gynnig creadigol gyflawni gofynion y comisiwn • dangos ystyriaeth ofynnol o gryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad personol yn y dyfodol • dangos cynlluniau gweithredu a thargedau gofynnol ar gyfer cynigion creadigol yn y dyfodol • cyflwyno safbwyntiau gofynnol ar lwyddiant y cynnig creadigol nad ydynt wedi'u cefnogi.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 3

Tasg	Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)						Dyraniad marciau			
	Adran						Cyfanswm y Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
	3.1.1	3.1.2	3.2.1	3.2.2	3.3.1	3.3.2				
1	10						10	10		
2		10					10		10	
3		5					5	5		
4			5				5	5		
5				20			20		20	
6				10			10		10	
7					20		20			20
	10	15	5	30	20		80	20	40	20